



## Adroddiad Cyfarfod

13:04:22

Wendy Ostler – Cadair Ioga

Cynhalwyd cyfarfod mis Ebrill o Ferched y Wawr yn y Neuadd am 7.30 ar y 13eg o Ebrill.

Croesawyd pawb gan y Llywydd Anne Elis gan estyn ein llongyfarchiadau i Anita Owen ar ddod yn nain i ddau fachgen o fewn dau ddiwrnod i'w gilydd. Ganwyd Eban Emyr i Ffion a Gavin a Mabon Meilyr i Lisa a Gwion.

Dymunwyd yn dda i Anwylod yn ei chartref newydd yn Penrhos, Bangor..

Diolchwyd i bawb am eu gwaith caled yn gwneud y bore coffi Gwyl Dewi yn gymaint o lwyddiant. Roedd yr adborth yn galonogol iawn a phawb yn falch o gael cymdeithasu a chyfarfod am sgwrs a hen ffrindiau. Casglwyd £320 o arian y raffl a phenderfynnwyd rhoi £220 i gronfa'r ysgol a £100 i adran bentref yr Urdd.

Mis nesaf ni fydd Perthyn yn agored ar y dydd Mercher am ginio wedi'r daith gerdded. Rhanwyd nifer o syniadau ond y penderfyniad oedd newid i'r dydd Iau pryd y cawn daith gerdded o gwmpas y pentref a gorffen yn Perthyn am baned.

Tynwyd sylw at brosiect y Llywydd Cenedlaethol Cerdded, Cerdd a Chynefin, edrychwn ymlaen i ymuno yn y daith os bydd y rhanbarth yn trefnu.

Mae poster o'r daith i Lerpwl wedi mynd i'r Eco, cychwyn am 9.30 ar ddydd Mercher Mehefin 8fed. Mae'r trip yn agored i unrhyw un o'r pentref. Ni fydd angen talu am y bws na'r daith ar y gwch, gan fe'i noddir gan y Loteri Cenedlaethol.

Trafodwyd hefyd y gwyliau cenedlaethol - Gŵyl y Pum Rhanbarth, Gŵyl Haf a'r Chwaraeron yn Machynlleth. Casglwyd enwau am y cardiau Nadolig, y cardiau cyfarch a'r dyddiadur erbyn y flwyddyn nesaf.

Ein gwraig wadd oedd Wendy Ostler, mae hi wedi bod yn weithgar iawn yn y pentref ers blynyddoedd yn enwedig yng ngweithgareddau'r ysgol ar Urdd.

Mae'n hyfforddi ioga ers nifer o flynyddoedd a chawsom orig o weithgareddau ioga o'r gadair. Cawsom hwyl a chwerthin yn gwneud y symydiadau a phawb yn amlwg wedi mwynhau.

Gan fod nifer dda o'r aelodau yn bresennol penderfynwyd dewis swyddogion a phwyllgor y flwyddyn nesaf.

Wedi i bawb cael cyfle i bleidleisio

Mair Price etholwyd yn Lywydd, Jen Roberts yn is lywydd.

Gwenan Roberts yn Ysgrifennydd a Mair Read yn is Ysgrifennydd.

Eirlys Williams yn Drysorydd ac Anita Owen yn Is Drysorydd.

Cynigiodd Falmai, Lynwen, Nora, Rhian, Mair Williams, ac Eleri Warrington eu hunian yn aelodau o'r pwyllgor.

Diolch o galon i bob un am fod mor barod i dderbyn eu swyddi.

Taith gerdded sy gennym yn mis nesaf bore lau 12ed Fai ar hyd y palmant newydd at Tyddyn Hen gyda'r opsiwn o gario mlaen heibio Grug ac yn ôl i Bethel neu droi o Tyddyn Hen yn ôl yr un ffordd i Fethel. Os oes rhai ddim awydd cerdded byddwn yn Perthyn erbyn tua 12.00